RHAN 2 – ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

Erthygl 14 - Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad

14.1 Dyletswydd i fonitro ac adolygu'r cyfansoddiad

Bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac adolygu gweithrediad y Cyfansoddiad er mwyn sicrhau bod amcanion ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael eu gweithredu'n llawn, a bydd yn hysbysu'r Cyngor ar sail hynny.

14.2 Newidiadau i'r Cyfansoddiad

(a) **Cymeradwyaeth**

Ac eithrio fel y nodwyd fel arall, dim ond y Cyngor all gymeradwyo newidiadau i'r elfennau canlynol yn y Cyfansoddiad:

- Erthyglau
- Rheolau'r Cyngor, Pwyllgor, Craffu a Gweithdrefnau Cyflogaeth
- Cynllun Dirprwyo'r Cyngor
- Cylch Gorchwyl ar gyfer y Cyngor a Phwyllgorau Craffu
- Protocol Cysylltiadau Aelodau / Swyddogion
- Cod Ymarfer Aelodau
- Cynllun Lwfansau Aelodau

(b) **Newid o weithrediaeth ar ffurf arweinydd a gweithrediaeth i drefniadau amgen, neu i'r gwrthwyneb**

Rhaid i'r Cyngor gymryd camau rhesymol i ymgynghori ag etholwyr lleol a phobl eraill â diddordeb yn yr ardal wrth lunio cynigion ar gyfer newid.